Synhwyraidd a Meddygol 2024 – 2025

| Teitl y Cwrs | Disgrifiad | Dull Cyflwyno | Cynulleidfa Darged | Dyddiadau'r Cwrs | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
| Codi a Chario Disgyblion ag Anghenion Arbennig – Hyfforddiant Llawn | Cwrs deuddydd o hyd sy'n cynorthwyo staff â chodi a chario plant a phobl ifainc sydd ag anghenion corfforol/meddygol mewn modd diogel.<br>Bydd y cwrs yn ymwneud â phynciau mewn perthynas â Rheoliadau Codi a Chario (MHO) 1992 a deddfau perthnasol eraill sy'n ymwneud â chodi a chario.<br>Mae'r pynciau dan sylw'n cynnwys:<br>• Ymwybyddiaeth asgwrn cefn<br>• Deddfwriaeth<br>• Asesu risg<br>• Defnyddio teclyn codi, cadeiriau olwyn ac offer amrywiol yn ddiogel.<br>Bydd angen cwblhau hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd yn dilyn y cwrs deuddydd cychwynnol. | Wyneb yn wyneb yn Vision Products | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Anghenion Arbennig | 10 ac 11/09/2024 neu 19 a 20/11/2024 | 21 a 22/01/2025 neu 25 a 26/03/2025 | 24 a 25/06/2025 |
| Codi a Chario Disgyblion ag Anghenion Arbennig – Hyfforddiant Gloywi | Mae hyfforddiant gloywi ar gael wedi cwblhau'r cwrs Codi a Chario llawn fydd yn cael ei gynnal dros ddiwrnod llawn. Nod y cwrs yw gloywi gwybodaeth ddamcaniaethol yr hyfforddiant craidd, ac mae rhan helaeth ohono'n canolbwyntio ar godi a chario ymarferol, gan adlewyrchu anghenion yr unigolyn dan sylw gyda dulliau sy'n datrys problemau. | Wyneb yn wyneb yn Vision Products | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Anghenion Arbennig | 25/09/2024 neu 13/11/2024 neu 04/12/2024 | 23/01/2025 neu 19/03/2025 | 18/06/2025 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyletswyddau Cydraddoldeb | Deddf Cydraddoldeb 2010 - Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu, nodweddion gwarchodedig a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl mewn ysgolion. Dechrau archwilio Addasiadau Rhesymol | MS Teams | Pob aelod o staff | 10/09/2024 3.30-4.30pm | 22/01/2025 | 14/05/2025 1pm-2pm |
| Addasiadau Rhesymol | Beth yw addasiadau rhesymol a sut maen nhw'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Archwilio addasiadau rhesymol ymarferol mae modd eu gwneud mewn ysgolion | MS Teams | Pob aelod o staff | 17/09/2024 3.30-4.30pm | 04/02/2025 9.30-10.30am | 03/06/2025 1pm-2pm |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Niwrogyhyrol | Caiff yr hyfforddiant ymwybyddiaeth ei gynnal ar y cyd â'r garfan ffisiotherapi. Ymchwilio i beth yw anableddau niwrogyhyrol a sut mae modd iddyn nhw effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgol. Edrych ar strategaethau i helpu ysgolion yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb 2010 ac addasiadau rhesymol mae modd eu gwneud. | MS Teams | Pob aelod o staff | Mis Hydref 2024 - i'w gadarnhau | | |
| Hyfforddiant Parlys yr Ymennydd | Caiff hyfforddiant ymwybyddiaeth ei gynnal ar y cyd â'r garfan ffisiotherapi. Ymchwilio i beth yw parlys yr ymennydd a sut mae modd iddyn nhw effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgol. Edrych ar strategaethau i helpu ysgolion yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb 2010 ac addasiadau rhesymol mae modd eu gwneud | MS Teams | Pob aelod o staff | Tachwedd 2024 - i'w gadarnhau | | |
| Cefnogi Disgyblion ag Anghenion Gofal Iechyd | Sesiynau unigol i ysgolion eu trefnu, i ddatrys problemau ac i drafod cymorth i ddisgyblion ag anghenion gofal iechyd | MS Teams | Pob aelod o staff | Diabetes 24/09/2024 3.30-4.30pm | Epilepsi 18/02/2025 9.30-10.30am | Anableddau Cudd 02/07/2025 1pm-2pm |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal personol | Bydd rhan gyntaf pob sesiwn yn canolbwyntio ar:- Coluddion Iach; Rhwymedd; Ystyriaethau Synhwyraidd; Taenu baw; Gwrthod Ysgarthu; Asesiad/cynllun hyfforddi o ran defnyddio'r toiled; Cefnogi cyfathrebu. Bydd ail ran pob sesiwn yn canolbwyntio ar Gefnogi Gofal Personol o fewn ysgolion a fydd yn canolbwyntio ar:- Beth yw Gofal Personol; Deddfwriaeth; Ymarfer annerbyniol; Egwyddorion arweiniol Gofal Personol yn RhCT; Cynlluniau Gofal Personol. | MS Teams | Pob aelod o staff | 17/09/2024 9.30-12pm | 14/01/2025 9.30-10.30am | 06/05/2025 1pm-3pm |